Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Hysbysiad hwylus

# Y Cynnig Cyllideb Blynyddol

Medi 2008

## Trosolwg o'r cynnig cyllideb blynyddol

Ar ôl i'r gyllideb ddrafft gael ei hystyried, mae'n ofynnol i un o Weinidogion Cymru gyflwyno'r cynnig cyllideb blynyddol yn unol â gofynion **Adran 125 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*** a Rheolau Sefydlog 27.17-27.20,[1] ar 3 Rhagfyr neu cyn hynny. Rhaid i'r cynnig ymgorffori cyllideb derfynol Llywodraeth Cynulliad Cymru, cyllidebau terfynol Comisiwn y Cynulliad (yn unol â chytundeb y Cynulliad o dan Reolau Sefydlog 27.7-27.12), yr amcangyfrif ar gyfer yr Archwilydd Cyffredinol (fel y mae wedi'i osod gerbron y Cynulliad o dan Reolau Sefydlog 27.13-27.14) a'r amcangyfrif ar gyfer yr Ombwdsmon (fel y mae wedi'i osod gerbron y Cynulliad o dan Reolau Sefydlog 27.15-27.16). Bydd y cynnig cyllideb blynyddol yn gofyn am awdurdod i'r adnoddau a all gael eu defnyddio, yr incwm a all gael ei gadw a'r arian parod a all gael ei dynnu o Gronfa Gyfunol Cymru (WCF). Rhennir yr adnoddau a all gael eu defnyddio yn wasanaethau a dibenion neu gwmpasau penodedig.

## Yr wybodaeth a gynhwysir yn y Cynnig Cyllideb Blynyddol

Yn unol ag adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a'r Rheolau Sefydlog, mae'r cynnig cyllideb blynyddol yn cynnwys:

- **Atodlen 1** – Cwmpasau a therfynau adnoddau ar gyfer gwariant Gweinidogion Cymru
- **Atodlen 2** – Terfynau ar ddefnyddio adnoddau cronnus gan Weinidogion Cymru
- **Atodlen 3** – Cwmpasau a therfynau adnoddau ar gyfer gwariant y Cyrff a Ariannir yn Uniongyrchol (Comisiwn y Cynulliad, Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru)
- **Atodlen 4** – Terfynau ar ddefnyddio adnoddau cronnus gan y Cyrff a Ariannir yn Uniongyrchol
- **Atodlen 5** – Cysoniad rhwng Adnoddau ac Arian Parod (gan gynnwys y symiau arian parod a all gael eu tynnu o Gronfa Gyfunol Cymru)
- **Atodlen 6** – Cysoniad rhwng yr adnoddau y gofynnir amdanynt yn y cynnig cyllideb a'r adnoddau y mae'r Trysorlys wedi trefnu eu bod ar gael at y Bloc Cymreig
- **Atodlen 7** – Cysoniad rhwng y mewnlif arian parod i Gronfa Gyfunol Cymru a'r dyroddiadau arian parod y gofynnir amdanynt yn y cynnig cyllideb

[1] Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Hydref 2007). [fel yr oeddent ar 13 Awst 2008].

Rhoddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru wybodaeth hefyd am **ddyraniadau Prif Grwpiau Gwariant (MEG) Cyllideb Derfynol 2007**, sy'n caniatáu cymariaethau â chyllidebau'r ddwy flynedd blaenorol.

Ar yr adeg hon ym mhroses y gyllideb, mae manylion terfynol y blaenoriaethau a'r dyraniadau wedi'u pennu yn sgil ymgynghori yng nghyfnod y gyllideb ddrafft. Ni chaniateir cyflwyno gwelliannau i gynnig cyllideb blynyddol ac mae opsiynau'r Aelodau wedi'u cyfyngu i ymatal, neu bleidleisio o blaid neu yn erbyn y cynnig yn ei grynswth.[2] Er hynny, mae'r ddadl ar y cynnig cyllideb blynyddol yn gyfle i'r Aelodau unigol godi pwyntiau yn ystod y ddadl ynghylch unrhyw flaenoriaethau sydd heb eu hateb neu bryderon penodol.

Gan hynny, mater i'r Aelodau yw rhoi'r awdurdod ariannol i ddefnyddio adnoddau. Ar y llaw arall, dim ond y Gweinidogion sy'n cael gofyn am i adnoddau gael eu defnyddio a chaiff yr Aelodau ddim awdurdodi symiau nad yw'r Gweinidogion wedi gofyn amdanynt. Mae hyn yn cyfateb yn union i system Whitehall-San Steffan (ac i'r gweinyddiaethau datganoledig eraill): yno dim ond y Goron, ar ffurf y Trysorlys, a gaiff ofyn am i adnoddau gael eu defnyddio a dim ond Tŷ'r Cyffredin a gaiff awdurdodi defnyddio adnoddau.

## Deall tablau'r gyllideb

Mae gwybodaeth am y gyllideb yn cael ei chyhoeddi ar **dudalennau Cyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru**. O'r tudalennau hyn gellir gweld cyllideb gyfredol Llywodraeth Cynulliad Cymru, a chyllidebau'r blynyddoedd blaenorol.[3] Mae'r gyllideb yn cael ei dadansoddi ar sawl lefel manylder:

- **Prif Grwpiau Gwariant (MEGs)** – sy'n cyfateb i bortffolios y Gweinidogion.
- **Meysydd Rhaglenni Gwariant (SPAs)** – sy'n diffinio grwpiau pendant o wariant o fewn pob MEG, (megis cyllideb pob Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad).
- **Llinellau Gwariant yn y Gyllideb (BELs)** – sy'n dadansoddi pob SPA yn ôl y meysydd polisi neu'r mentrau sy'n rhan ohono.
- Y tu ôl i bob BEL ceir codau cyfrifon. Oherwydd lefel uchel y manylder ar lefel y cod cyfrif, fydd gwybodaeth am y gyllideb ddim yn cael ei chyhoeddi o dan lefel y BEL fel arfer.

Mae tablau'r gyllideb yn dangos tablau cryno ar gyfer y MEGs, wedi'u rhannu yn **Derfynau Gwariant Adrannol (DELs)**[4] a **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)**,[5] sy'n dangos y refeniw

[2] Mae **adran 127 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006** yn ymdrin â'r sefyllfa lle nad oes cynnig cyllideb wedi'i basio gan y Cynulliad ar ddechrau'r flwyddyn ariannol berthnasol. Mae'n darparu ar gyfer defnyddio hyd at 75% o'r adnoddau; cadw hyd at 75% o'r incwm sy'n cael ei gadw; a thalu arian parod allan o Gronfa Gyfunol Cymru hyd at 75% o'r arian parod a gymeradwywyd at y flwyddyn ariannol flaenorol ar gyfer gwasanaethau a dibenion a gymeradwywyd yn y flwyddyn flaenorol os na fydd y Cynulliad yn cymeradwyo cynnig ar y brif gyllideb cyn dechrau'r flwyddyn ariannol. Mae'r ganran yn cynyddu i 95% ar ôl diwedd mis Gorffennaf, os na fydd cynnig cyllideb wedi'i gymeradwyo ar gyfer y flwyddyn ariannol honno.

[3] Ar gyfer cylch cynllunio 2004, cafodd dogfen ychwanegol ei chyhoeddi o dan y teitl *Cyllideb ar gyfer Dyfodol Cymru, Cynlluniau Gwariant Llywodraeth y Cynulliad 2005-06 i 2007-08*. Nododd y ddogfen hon gynlluniau cyllideb Llywodraeth y Cynulliad o 2005-06 i 2007-08, gan anelu at gyflwyno'r wybodaeth ariannol mewn ffordd sy'n cyplysu'r gwariant yn agosach â nodau polisi a rhaglenni i'w cyflawni ym mhortffolio pob Gweinidog. [y ddolen fel yr oedd ar 13 Awst 2008].

[4] **Terfynau Gwariant Adrannol (DELs)** – fel arfer yn cael eu gosod dros dair blynedd fel rhan o Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr (CSR) Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae'r rhan fwyaf o'r DEL heb ei chlustnodi gan ganiatáu disgresiwn llawn i Lywodraeth Cynulliad Cymru

a'r cyfalaf i bob MEG.  Dilynir hyn gan y gyllideb ar gyfer pob portffolio neu MEG yn nhermau'r adnoddau.  Mae cyllideb pob MEG yn cynnwys tabl i bob un o'r cyfansymiau rheoli (DEL Refeniw, DEL Cyfalaf ac AME).  Ym mhob un o'r tablau hyn dangosir y SPAs ynghyd â'r BELs y manylir arnynt ar gyfer pob SPA.

## Cymharu tablau cyllideb y Gyllideb Derfynol

Wrth ddadansoddi'r gyllideb derfynol mae'n bosibl gwneud llawer o gymariaethau gwahanol. Mae'r tabl canlynol yn dangos rhai o'r cymariaethau hyn.  Nid cymariaethau gorfodol yw'r rhain, ond yn hytrach awgrymiadau ar gyfer penawdau cymariaethau a allai fod yn fan cychwyn buddiol i graffu ar y gyllideb derfynol. **Dangosir y fformiwlâu a ddefnyddir i wneud y cymariaethau mewn cromfachau yn labeli'r ffigurau.**

Mae **Tabl 1** yn dangos tabl cymharu ar gyfer Cyllideb Derfynol 2007, gan ddangos y ffigurau a'r colofnau canlynol ar gyfer DEL Refeniw MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

- **Colofn A** – yn dangos disgrifiad o gynnwys y tabl (MEG, SPA a/neu BEL).
- **Colofn B** – yn dangos ffigurau gwariant cynlluniedig 2008-09 o Gyllideb Derfynol 2007.
- **Colofn C** – yn dangos ffigurau gwariant dangosol 2009-10 o Gyllideb Derfynol 2007.
- **Colofn D** – yn dangos ffigurau gwariant dangosol 2010-11 o Gyllideb Derfynol 2007.
- **Colofn E** – yn cymharu'r hyn y dywedodd y Llywodraeth ei bod yn bwriadu ei wario ar gyfer 2009-10 â gwariant cynlluniedig 2008-09 yng Nghyllideb Derfynol 2007.  Dangosir y cynnydd/gostyngiad o'r naill flwyddyn i'r llall fel swm ariannol +/-.
- **Colofn F** – yn dangos y cynnydd/gostyngiad o'r naill flwyddyn i'r llall yng Ngholofn E, wedi'i fynegi fel canran.
- **Colofn G** – yn cymharu'r hyn y dywedodd y Llywodraeth ei bod yn bwriadu ei wario ar gyfer 2010-11 â gwariant cynlluniedig 2009-10 yng Nghyllideb Derfynol 2007.  Dangosir y cynnydd/gostyngiad o'r naill flwyddyn i'r llall fel swm ariannol +/-.
- **Colofn H** - yn dangos y cynnydd/gostyngiad o'r naill flwyddyn i'r llall yng Ngholofn F, wedi'i fynegi fel canran.

Sylwch y gallai'r fformat hwn gael ei ddefnyddio hefyd i gynrychioli'r tablau yn y gyllideb ddrafft, neu ar gyfer unrhyw rai neu'r cyfan o'r MEGs, y SPAs a'r BELs (gan gynnwys tablau cryno) yn y gyllideb derfynol.

Y ffordd orau i ddehongli cynnydd neu ostyngiad mewn MEG, SPA neu BEL a welir wrth gymharu'r naill flwyddyn â'r llall yw cyfeirio at gyd-destun polisi'r MEG, y SPA neu'r BEL penodol.

---

ynghylch ei blaenoriaethau gwario (sy'n cael eu galw'n eitemau'r 'gyllideb wedi'i chlustnodi').  Er hynny, mae rhai o elfennau'r DEL wedi'u clustnodi a dim ond at ddibenion penodedig y caniateir eu defnyddio.

[5] **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)** – yn cynnwys eitemau nad yw'n rhesymol eu cadw o dan derfynau cadarn dros nifer o flynyddoedd (megis y Polisi Amaethyddol Cyffredin) ac sydd felly'n cael ei adolygu a'i bennu bob blwyddyn (ym mis Mawrth).  Mae'r AME yn dilyn y galw a dim ond i'r rhaglen y mae wedi'i chlustnodi iddi y caniateir ei dyrannu.  Caniateir i ragor o AME gael ei dynnu i lawr o'r Trysorlys os oes ei angen, tra bydd unrhyw gyfran sydd heb ei gwario yn cael ei hawlio'n ôl gan y Trysorlys.

Tabl 1: Cymharu tablau'r Gyllideb Derfynol o'r naill flwyddyn i'r llall

## HEALTH AND SOCIAL SERVICES MAIN EXPENDITURE GROUP (MEG)

| Budget Expenditure Line | Plans 2008-09 | Indicative plans 2009-10 | Imdicative plans 2010-11 | 2009-10 cf 2008-09 | | 2010-11 cf 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000s | £000s | £000s | £000s | % | £000s | % |
| | | | | | | | |
| LHBs, Trusts and Central Budgets | [illegible] | 4,219,845 | 4,306,970 | 69,934 | 2 | 87,125 | 2 |
| LHBs, Trusts and Central Budgets - Revenue Receipts | [illegible] | [illegible] | -30,208 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| LHB and Trust Depreciation, Cost of Capital and Provisions | [illegible] | [illegible] | 109,565 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Depreciation Double Count for Capital Expenditure | -106,626 | -106,626 | -106,626 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Payments to Contractors | 594,489 | 619,001 | [illegible] | 24,512 | 4 | 20,057 | 3 |
| FHS Income | 0 | 0 | [illegible] | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Wanless Review Implementation | 4,000 | 7,000 | [illegible] | [illegible] | 43 | [illegible] | 0 |
| Other Health Central Budgets | 83,960 | 125,003 | [illegible] | [illegible] | 33 | [illegible] | [illegible] |
| | | | | | | | |
| **NHS Allocations** | **4,805,091** | **4,943,580** | [illegible] | **138,489** | **3** | [illegible] | [illegible] |
| | | | | | | | |
| Education and Training | 202,226 | 210,865 | 218,591 | 8,639 | 4 | 7,726 | 4 |
| Workforce Development Central Budgets | 79,370 | 83,019 | 85,050 | 3,649 | 4 | 2,031 | 2 |
| Care Council for Wales - Revenue | 9,938 | 9,848 | 9,693 | -90 | -1 | -155 | -2 |
| Care Council for Wales Cost of Capital and Depreciation | 38 | 38 | 38 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | | | | | | | |
| **Workforce Development** | **291,572** | **303,770** | **313,372** | **12,198** | **4** | **9,602** | **3** |
| | | | | | | | |
| Information Central Budgets | 29,586 | 29,916 | 30,313 | 330 | 1 | 397 | 1 |
| | | | | | | | |
| **Information** | **29,586** | **29,916** | **30,313** | **330** | **1** | **397** | **1** |

**A** Disgrifiad o'r MEG, y SPA a'r BEL

**B** Gwariant cynlluniedig 2008-09 o Gyllideb Derfynol 2007

**C** Gwariant dangosol 2009-10 o Gyllideb Derfynol 2007

**D** Gwariant dangosol 2010-11 o Gyllideb Derfynol 2007

**E** Cynnydd/gostyngiad yng ngwariant dangosol 2009-10 o'i gymharu â 2008-09 yng Nghyllideb Derfynol 2007 (Colofn C-B)

**F** Cynnydd/gostyngiad yng Ngholofn E, fel canran (E/B*100)

**G** Cynnydd/gostyngiad yng ngwariant dangosol 2010-11 o'i gymharu â 2009-10 yng Nghyllideb Derfynol 2007 (Colofn D-C)

**H** Cynnydd/gostyngiad yng Ngholofn G, fel canran (G/C*100)

**Ffynhonnell:** Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau.

## Cynghorion ynglŷn â gwaith craffu

Mae'r adran sy'n dilyn yn cynnig cynghorion ynglŷn â gwaith craffu a allai fod yn ddefnyddiol i'r Aelodau a'r Pwyllgorau wrth graffu ar y gyllideb derfynol. Nid yw'r rhain yn orfodol mewn unrhyw ffordd; y bwriad yn hytrach yw helpu i ystyried, i friffio ac i holi ynglŷn â'r gyllideb a gwaith craffu ariannol.

### Y cefndir a'r cyfle ar gyfer newid

- Faint yw cyllideb yr adran fel canran o gyfanswm cyllideb derfynol Llywodraeth Cynulliad Cymru?

### Y perfformiad o'i gymharu â'r targedau

- Ydy'r targedau perfformiad, (er enghraifft y rhai yn **Cymru'n Un**[6]) yn cael eu bodloni gan y patrymau gwario cyfredol?
- Oes yna bryderon ynghylch gallu'r adran i gyflawni ei hymrwymiadau o fewn lefelau arfaethedig yr adnoddau?

### Materion trawsbynciol

- Sut yr aed i'r afael â materion fel cydraddoldeb a chynaliadwyedd?
- Sut y darparwyd ar gyfer effaith ariannol deddfwriaeth newydd neu ddeddfwriaeth arfaethedig yn nyraniadau'r gyllideb derfynol?
- Sut gysylltiad sydd rhwng unrhyw gyhoeddiadau mawr ar wariant neu ymrwymiadau ariannol penodol a llinellau gwario unigol? A ydy'r ymrwymiadau hyn yn cyfeirio at gyllid newydd, neu a ydynt yn cynnwys cyllid o gyllidebau blaenorol, ac at ba gyfnod o amser y mae'r ymrwymiadau'n cyfeirio.

### Newidiadau o'r naill flwyddyn i'r llall

- O'i gymharu â Chyllideb Derfynol y llynedd, a oes unrhyw gynnydd neu ostyngiad yn y SPAs a'r BELs?
- Ydy'r adran wedi colli neu wedi ennill unrhyw gyfrifoldeb dros feysydd polisi neu dros gyflwyno gwasanaethau?
- Gan gyfeirio at y ffigurau alldro diweddaraf sydd ar gael o'r flwyddyn ddiwethaf, oes yna

[6] Gellir dilyn y cynnydd ar amcanion Cymru'n Un drwy gyfrwng Cynllun Cyflenwi Cymru'n Un 2007-2011 [fel yr oedd ar 21 Awst 2008].

danwario neu orwario ar unrhyw SPAs neu BELs? Oes lwfans wedi'i wneud ar gyfer hyn yn y gyllideb derfynol?

## Newidiadau ers y gyllideb ddrafft

- O gymharu'r gyllideb ddrafft â dyraniadau'r gyllideb derfynol, ydy'r SPAs a'r BELs wedi cynyddu neu wedi gostwng?
- Oes adrannau penodol wedi colli neu wedi ennill cyfrifoldeb dros feysydd polisi neu dros gyflwyno gwasanaethau ers y gyllideb ddrafft?

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am agweddau ar y gyllideb, cysylltwch ag **Eleanor Roy**, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau (**Eleanor.Roy@Wales.GSI.Gov.UK**)

- **Rhan 5 o Ddeddf Llywodraeth Cymru: Cyllid**
- **Proses y Gyllideb yng Nghymru**

Rhestr lawn o **Hysbysiadau Hwylus**

**Caiff papurau briffio Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau eu llunio er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Gall yr awduron drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant gynghori aelodau'r cyhoedd. Rydym yn croesawu sylwadau ar ein papurau briffio a dylid anfon y rhain at Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd CF99 1NA neu anfonwch e-bost at MembersLibrary@wales.gsi.gov.uk**